# Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

22 Medi 2017
10:00 – 1:00
Ystafell y Cyngor

## Cyfathrebu Mewnol

**Pwrpas yr adroddiad/papur:**

Diweddaru Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ar y dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu mewnol sydd yn bodoli yn y Llyfrgell, a nodi'r rhai newydd sydd wedi eu mabwysiadu yn dilyn cyhoeddi adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, *Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Adolygiad Llywodraethu,* ym mis Rhagfyr 2016.

**Crynodeb o'r adroddiad/papur:**

Nododd Pricewaterhouse Coopers yn ei adroddiad annibynnol ar y Llyfrgell a'i gwaith ym mis Gorffennaf 2015 bod lefelau bodlonrwydd isel ymhlith y staff mewn perthynas ag ymgysylltu ac arweinyddiaeth ar draws y sefydliad. Drafftiwyd Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu mewnol oedd yn mynd i'r afael a'r gwendidau yma, ac yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad a nodi uchod gan Swyddfa Archwilio Cymru, adolygwyd y dulliau ymgysylltu a chyfathrebu, ac mae'r rhain yn cael eu nodi yn y papur yma.

**Argymhellion:**

Bwrdd i nodi cynnwys y papur a'r cynnydd sydd wedi ei wneud i wella ymgysylltu a chyfathrebu mewnol.